Gweithgaredd 1: Lluniau o anghydraddoldeb

Amcanion dysgu • Nodi anghydraddoldeb fel ffenomen fyd-eang. • Meddwl am anghydraddoldeb o fewn gwledydd, yn ogystal â rhyngddynt.
Adnoddau • Taflen Gweithgaredd yn dangos lluniau o anghydraddoldeb a chyflwyniad gyda lluniau
Yr amser sy'n ofynnol: 20 munud

Cyflwyniad: ysgogi gwybodaeth flaenorol (5 munud)

- Dangoswch y pedwar llun, a gafodd eu tynnu mewn gwledydd gwahanol rhwng 2004 a 2014, i'r bobl ifanc. Gofynnwch iddynt am eu sylwadau am bob un yn unigol, yna gofynnwch iddynt eu cymharu.

Ymchwilio i thema anghydraddoldeb (10 munud)

- Gofynnwch y cwestiynau hyn:
  - A oes thema yn gyffredin i'r pedwar llun hyn, a gafodd eu tynnu mewn gwledydd gwahanol ar adegau gwahanol? Beth yw'r thema honno a sut y mae'r lluniau'n dangos y thema hon?
  - Mae tystiolaeth yn awgrymu bod anghydraddoldeb rhwng gwledydd yn lleihau, ond bod anghydraddoldeb y tu mewn i wledydd unigol yn cynyddu. A oes unrhyw dystiolaeth yn y lluniau i gefnogi'r dystiolaeth hon?

Sesiwn lawn (5 munud)

  - Pe baech yn tynnu llun i ddangos anghydraddoldeb yn eich cymuned neu'ch gwlad eich hun, beth fyddai'r llun hwnnw'n ei ddangos?

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Taflen Gweithgaredd

Kathmandu, Nepal: Dyn yn gwthio ei feic, wedi'i lwytho â melonau, heibio i hysbyseb bwrdd poster ar gyfer gwasanaeth dosbarth cyntaf Oman Air (2013)
Llun: Panos/GMB AKAS

Johannesburg, De Affrica: y gwerthwr brwshys, Leonard Kufeketa, 39, yn sefyll o flaen Ferrari ym maestref ddrud Parkhurst (2014) Llun: Zed Nelson/Oxfam

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

São Paulo, Brasil. Tref sianti Paraisópolis (Y Ddinas Baradwys) yn ymyl ardal gyfoethog o Morumbi (2008) Llun: Tuca Vieira

Mumbai, India. Cartrefi sianti teuluoedd pysgota a mewnfudwyr ar Back Bay, gyda blocdyrau Nariman Point yn y cefndir (2004).
Llun: Paul Smith/Panos

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.
Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841